



Teithiau Byr



Tapiau Trefdraeth

Teithiau Byr

Hyd: 1 awr

Pellter: 2.2 milltir (3.5 km)

Cludiant cyhoeddus Bws
gwasanaeth Trefdraeth T5, *Poppit
Rocket 405 (*tymhorol, galw a teithio).

Cyfeirnod map: SN054396

Mae'r daith gerdded yma wedi'i seilio ar y daflen a gynhyrchwyd gan Carningli WI yn y flwyddyn 2000 fel rhan o'r Prosiect Llwybr i'r 21ain Ganrif. Cafodd y pump tap ar y daith eu hadnewyddu yn y flwyddyn 2000 gan aelodau o'r WI gyda chymorth Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Cyngor Dosbarth Gwledig Llandudoch fu'n gyfrifol am osod pibellau dŵr o gronfa ddŵr o dan orchudd ar lethrau gogleddol Carningli uwch ben Bryn y Castell. Cysylltwyd y pibellau yma â nifer o dapiau o amgylch y dref yn 1929. Cyn hynny, câi trigolion Trefdraeth eu dŵr o ffynhonnau neu yn uniongyrchol o'r ddwy afon sydd yn llifo i lawr o'r mynydd, Afon Ysgolheigion ac Afon Felin.

Daeth y tapiau hyfryd hyn o waith haearn o ffoundri 'Glenfield a Kennedy', Kilmarnock, yr Alban. Roedd y tapiau yn cau ar eu pen eu hunain. Roedd y bwlyn yn troi swifl y tu mewn, a fyddai'n agor y falf. Cyn gynted ag y câi'r bwlyn ei ryddhau byddai pwysau trwm ar ben cadwyn yn cwmpo ac yn cau'r falf. Cafodd tua 12 o dapiau eu osod o amgylch y dre ac roeddent yn llefydd poblogaidd i bobol ymgynnull a chael clonc. Ar ôl rhyw 50 mlynedd cafwyd cyflenwad dŵr i bob cartref ei osod ond roedd rhai yn dal i ddefnyddio tapiau'r gymuned er mwyn dyfrio'u gerddi. Roedd yn well gan un wraig fynd i nôl ei dŵr mewn bwced na thalu pum

swllt ychwanegol o rent am y prif cyflenwad dŵr. Byddai gweithwyr fferm yn defnyddio'r tapiau yn rheolaidd er mwyn golchi eu hesgidiau wrth fynd adref o'r gwaith.

Erbyn diwedd y 90au dim ond 5 o'r tapiau gwreiddiol oedd yn bodoli ac roedd rhain mewn cyflwr gwael. Adferwyd y 5 tap a chynhyrchwyd darnau newydd i rai ohonynt. Gosodwyd y tapiau nôl ar sylfeini newydd ac meant nawr yn sefyll fel atgof o hanes y dre.

- * Tap 1 – Tap Maes Carafannau cyn ei hadnewyddu
- * Tap 2 – Nant y Blodau
- * Tap 3 – Sgwar y Coleg
- * Tap 4 – Top Feidr Bentinck, lle mae Heol y Brenin yn ymuno â Feidr Eglwys
- * Tap 5 – Heol yr Afr, wrth ymyl y chyffordd â Feidr Bentinck



Tap 1



Tap 2



Tap 3



Tap 4



Tap 5